

Natur Drws Nesaf

Cynghorion Ymarferol ar gyfer Cyfathrebu Traws-ddiwylliannol

Gall gweithio gyda phobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol fod yn ddiddorol, yn werth chweil ac yn heriol. Edrychwch ar yr awgrymiadau hyn. Nid yw'n rhestr gyflawn, ond gobeithio y bydd yn rhoi man cychwyn i chi.

Ond cofiwch! Mae'r ddogfen hon yn tueddu i gyffredinoli - ac nid yw pobl i gyd yr un fath, hyd yn oed os ydynt yn rhannu cefndir diwylliannol tebyg. Gwrandewch, bob amser, ar yr unigolyn. Peidiwch â chael eich llethu gan y "rheolau". Ymatebwch gyda chynhesrwydd i'r elfen ddynol bob dydd ym mhawb rydych chi'n cwrdd â nhw.

Dangos parch; cyswllt llygaid, gwenu ac iaith y corff

Mewn llawer o ddiwylliannau Gorllewinol, mae'n cael ei ystyried yn gwrtais i wneud **cyswllt llygaid** â'r person rydych chi'n siarad ag ef - er cofiwch y gall pobl awtistig a niwrowahanol gael anhawster gyda hyn yn aml, ac efallai na fyddant yn gwneud unrhyw gyswllt llygaid neu ddim llawer.

Fodd bynnag, mewn rhai diwylliannau, mae cyswllt llygaid, yn enwedig rhwng y ddau ryw, yn wahanol. Efallai y byddai'n well gan ddyn traddodiadol o rai cymunedau Mwslimaidd ostwng ei lygaid wrth siarad â menyw. Nid anfoesgarwch yw hyn, mewn gwirionedd mae'n dangos parch. Nid yw hyn yn berthnasol i bob cymuned Fwslimaidd.

Mae **gwenu** yn nodwedd arall sy'n gyffredin mewn rhai gwledydd yng Ngorllewin Ewrop. Fodd bynnag, yn Nwyrain Ewrop, gall dieithryn sy'n gwenu gael ei drin ag amheuaeth. Nid bod pobl o wlad yn Nwyrain Ewrop yn anghyfeillgar yw hyn - dim o gwbl - ond yn aml nid ydynt yn gweld unrhyw reswm dros wenu ar rywun nad ydynt yn ei adnabod. Dylai gwenu, a bod yn ddiffuant, fod ar gyfer y rhai rydych chi'n eu hadnabod ac yn poeni amdany'n nhw. Gall hyn arwain at y stereoteip anghywir bod rhai pobl o Ddwyrain Ewrop yn oeraidd, ond nid yw hyn yn wir.

Mae syniadau pobl am **ofod personol** yn amrywio'n fawr iawn hyd yn oed mewn gwledydd a chymunedau. Mae'n well bod yn ymwybodol iawn o'r cliwiau di-eiriau rydych chi'n eu gweld pan fyddwch chi'n siarad â rhywun. Os ydyn nhw'n symud ychydig fodfeddi yn ôl bob tro y byddwch chi'n symud ymlaen - rydych chi'n tarfu ar eu gofod - felly stopiwch. Mae rhai gwledydd yn gorfforol iawn ac efallai y byddwch chi'n cael eich procio neu'ch cyffwrdd gan bobl; mae eraill yn tueddu i gadw pawb hyd braich. Byddwch yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn, a pheidiwch â chael eich temtio i ddod i gasgliadau am gymeriad rhywun ar sail y gwahaniaethau yma yn unig. Er enghraifft, yn



Natur Drws Nesaf

India a rhai o wledydd y Dwyrain Canol, gall dynion ifanc ddal dwylo - mae hyn yn fynegiant cyffredin o gyfeillgarwch ac nid yw'n awgrymu perthynas rywiol.

Mae rhai pethau pwysig am iaith y corff hefyd. Mae'n eithaf hysbys, mewn cymunedau Mwslimaidd, ei bod yn gyffredin bwyta gyda'ch llaw dde; ond os ydych chi mewn parti ac yn codi samosa gyda'ch llaw chwith, ni fydd unrhyw un yn cael ei dramgwyddo.

Gwneud eich gwaith cartref

Os ydych chi'n gwybod am brif gefndiroedd diwylliannol y grŵp(iau) rydych chi'n mynd i ddelio â nhw, gwnewch ychydig o **chwilio ar-lein** cyn i chi gwrdd. Fodd bynnag, peidiwch â mynd yn rhy gaeth i'r hyn sy'n "iawn" a beth sy'n "anghywir". Yn lle hynny, mae'n llawer gwell i berthnasoedd personol os ydych chi'n mynd i mewn a *gwrando*. Arsylwi. Gofyn cwestiynau. Fel arfer bydd cwestiwn wedi'i eirio'n barchus, ac yn cael ei ofyn mewn ysbryd ymholi dilys, yn cael ei groesawu.

Byddwch yn ymwybodol, fodd bynnag: mae rhai cwestiynau y mae pobl o gefndiroedd amrywiol wedi blino'n fawr ar eu clywed. "O ble wyt ti'n dod?" Gall fod yn gwestiwn braidd yn ddigywilydd i berson gwyn ei ofyn i rywun Du sydd ag acen leol gref. Mae'n amlwg o ble mae'n dod. Pan fyddwch chi'n gofyn y cwestiwn hwnnw, beth ydych chi'n ei olygu mewn gwirionedd? Ydych chi'n gofyn am eu treftadaeth, ac os felly, ydi hwnnw'n gwestiwn perthnasol i'r hyn rydych chi'n ei wneud y diwrnod hwnnw? Y rheswm pam mae'r cwestiwn yma'n broblemus - er ei fod yn ymddangos mor fach - yw oherwydd ei fod yn anfon neges i'r person arall nad ydi o neu hi "o'r fan hon", ei fod yn rhywun "arall". Gall y cwestiynau cyson hyn am fywyd person gronni a gwneud i bobl deimlo eu bod wedi'u heithrio o'u gwlad eu hunain.

Felly ewch ati i **ofyn cwestiynau, ond dim ond rhai perthnasol** - a pheidiwch â chynhyrfu os nad yw rhywun eisiau eu hateb. Mae Sais gwyn yn siarad â pherson Pacistanaidd o Brydain ac yn holi am Eid yn iawn, ond nid yw'r person hwnnw'n siarad dros holl Bacistanaid Prydain, ac ni ellir disgwyl iddo "addysgu" pawb drwy'r amser. Parchwch ffiniau.

Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau ysgubol a chyffredinoli. Dyma pam, er ei fod yn beth da gwneud rhywfaint o ymchwil, ei bod yn bwysicach o lawer gwrando ar ac arsylwi eich grŵp penodol o bobl. Dod i adnabod y bobl o'ch blaen - nid y bobl rydych chi'n meddwl ydych chi'n gweithio gyda nhw.

Un cwestiwn pwysig i'w ofyn yw am **enwau**. Yn y DU, rydyn ni'n symud tuag at ffyrdd mwy anffurfiol o siarad â phobl, gan ddefnyddio eu henwau cyntaf, ond nid yw llawer o bobl yn ei hoffi. Efallai y byddai'n well gan bobl hŷn fod yn "Mr" neu'n "Mrs". Mae ieithoedd gwahanol yn delio ag enwau'n wahanol - efallai mai'r enw teuluol fydd yr enw cyntaf welwch chi, er enghraifft. Yn syml, gofynnwch beth mae pobl eisiau cael eu galw. Mae hyn yn bwysig ar gyfer rhagenwau, hefyd. Gallwch gynnig eich enw a'ch rhagenw eich hun yn gyntaf, wedyn mae hynny'n gwahodd y person arall yn awtomatig i ddweud ei rai ef neu hi wrthydd chi.



Natur Drws Nesaf

Cyfathrebu ar draws ieithoedd

Mae tua **300 o ieithoedd** yn cael eu siarad yn y DU. Mae rhai o'r rhain yn cael eu siarad fel ail ieithoedd gan bobl, ac i eraill, yn enwedig mewnfudwyr diweddar, maent yn ieithoedd cyntaf.

Cofiwch y gall pobl fod â **gwahanol lefelau o sgiliau** yn Saesneg. Efallai y bydd yn haws iddynt ddarllen Saesneg clir na deall y gair llafar, oherwydd mae'n rhoi amser iddynt feddwl am beth sy'n cael ei gyfathrebu. Mae pobl eraill wedi dysgu Saesneg gyda'r glust a byddant yn cael anhawster gyda thestun print. Bydd rhai pobl yn deall mwy nag y gallant ei siarad neu ei ysgrifennu. Hefyd, peidiwch â chymryd yn ganiataol y gall pobl ddarllen yn eu prif iaith. Mae hefyd yn gyffredin i blant mewnfudwyr allu deall iaith eu tras ond ei chael yn anodd ei siarad neu ei hysgrifennu.

Peidiwch â theimlo bygythiad o glywed **ieithoedd gwahanol** yn cael eu siarad o'ch cwmpas! Bydd rhai pobl yn cyfieithu i eraill, neu hyd yn oed yn cymryd yr hyn rydych chi wedi'i ddweud a'i ailadrodd iddyn nhw eu hunain yn eu prif iaith i'w helpu i gofio.

Gallwch chi helpu pobl i ddeall yr hyn rydych chi'n ei ddweud gyda'r awgrymiadau hyn (ond cofiwch mai cyffredinolli yw hyn):

- **Arafwch ychydig ar eich lleferydd** ond peidiwch â gor-wneud saib ar ôl pob gair. Mae llawer o'r hyn rydyn ni'n ei ddeall yn dibynnu ar batrwm a phwyslais brawddeg, ac mae rhai brawddegau yn gyfarwydd iawn yn eu patrwm – ond ni fydd siaradwr anffodrol yn deall pob gair sy'n cael ei ynganu'n unigol.
- Ceisiwch gadw **un prif syniad ar gyfer pob brawddeg**. Yn hytrach nag oedi rhwng geiriau, cymerwch saib bach rhwng brawddegau fel bod pobl yn gallu eu hailadrodd drostynt eu hunain os oes angen.
- **Peidiwch â gwneud jôcs**. Mae hiwmor yn anodd iawn ei gyfieithu.
- **Osgowch idiomau, bratiaith ac ymadroddion hefyd**, gan nad ydyn nhw'n cyfieithu'n dda o gwbl. Er enghraifft, "Ar ddiwedd y dydd, fe ddylen ni ymchwilio i hyn..." Dydych chi ddim yn golygu y byddwch chi'n edrych i mewn i rywbeth am 6pm, ydych chi? Fe fyddai "Poblogaidd? Roedden nhw'n gwerthu fel tatws poeth" ac "roedden nhw'n cael clincar felly fe wnes i ddianc am fechdan a phanad" hefyd yn eithaf anodd eu deall.
- Mae rhai diwylliannau'n gweld **ymyriadau a dadlau uchel** fel rhan o'r sgwrs. Mae diwylliannau eraill, fel pobl Tsieineaidd, yn **disgwyl distawrwydd** ac yn ei groesawu fel ffordd o ddangos parch, gan ei fod yn dangos bod y sawl sy'n gwranddo yn cymryd amser i ystyried yr hyn mae'r siaradwr wedi'i ddweud. Unwaith eto, byddwch yn ymwybodol o wahaniaethau a pheidiwch â chymryd yn ganiataol ei fod yn anfoesgar.

